



### **Gwirfoddoli gyda'r Athrofa Ffiseg**

Ar ôl clywed gan y Brifysgol Agored bod yr Athrofa Ffiseg yn edrych am wirfoddolwyr i redeg ei gweithdy "Lab mewn Lori", cofrestrais am 10 diwrnod mewn pedair ysgol yn y De. Roedd y gwaith yn cynnwys arwain pobl ifanc 11-14 oed drwy gyfres o arbrofion a oedd yn eu galluogi i archwilio natur golau a sain.

Roeddwn wedi mwynhau'r gweithdy llawer yn fwy nag yr oeddwn wedi disgwyl ei wneud, ac fe wnes i wirfoddoli oherwydd roedd wir angen profiad arnaf mewn amgylchedd labordy gan fy mod yn gobeithio dilyn gyrfa mewn ffiseg arbrofol rhyw ddydd. Doeddwn i ddim wedi disgwyl mwynhau egluro ffenomenâu ffisegol gwahanol i fyfyrwyr ifanc cymaint, ac roedd gweld llawenydd ar wyneb myfyriwr ar ôl iddo ddeall rhywbeth yn brofiad hyfryd a oedd yn fy atgoffa o'r rhyfeddod a'r syndod roeddwn i'n eu teimlo wrth ddysgu am y pethau hyn fy hun!

Byddwn yn argymhell y gweithdy Lab mewn Lori i unrhyw un sydd wedi ystyried gweithio ym maes gwyddoniaeth neu addysg, mae'n brofiad braf a dweud y lleiaf. Gan i mi fwynhau'r profiad cymaint, rwyf wedi cofrestru fel cennad STEM er mwyn i mi allu parhau fel gwirfoddolwr pryd bynnag y gallaf, nid o reidrwydd er mwyn nodi'r profiad ar bapur, ond er fy mwynhad fy hun.